Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Adolygiad o addysg uwch mewn sefydliadau addysg bellach

www.llyw.cymru



## Ymchwil

Dogfen ymchwil: rhif 063/2015
Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2015
Yn disodli dogfen ymchwil: rhif 062/2015

# Adolygiad o addysg uwch mewn sefydliadau addysg bellach

**Cynulleidfa**

Sefydliadau addysg bellach; ColegauCymru; sefydliadau addysg uwch; Prifysgolion Cymru; Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru; a phartïon eraill sydd â diddordeb yn y sectorau addysg bellach ac addysg uwch.

**Trosolwg**

Ystyriodd yr adolygiad y ddarpariaeth o addysg uwch ar Lefelau 4 a 5 mewn sefydliadau addysg bellach yng Nghymru. Y cylch gwaith oedd cynnig argymhellion mewn ymateb i anghenion y cyflogwr a darparu mynediad gyda llwybrau clir o gynnydd at addysg uwch.

**Camau i'w cymryd**

Mae angen i'r gynulleidfa weithio gyda swyddogion yr Adran Addysg a Sgiliau i sicrhau bod dealltwriaeth lawn o'r rhesymau dros yr argymhellion ac i drafod sut y gallant gael eu gyrru ymlaen a'u gweithredu yn y dyfodol agos.

**Rhagor o wybodaeth**

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Tîm Polisi Ôl-16
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Tŷ'r Afon
Heol Bedwas
Bedwas
Caerffili
CF83 8WT

e-bost: FEPolicy@cymru.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol**

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/addysgasgiliau

OGL © Hawlfraint y Goron 2015 WG25508 ISBN digidol 978 1 4734 3694 7

# Cynnwys

**Crynodeb gweithredol** **2**

**Cefndir** **4**

**Manteision cyflwyno darpariaeth AU mewn SABau** **5**

**Trefniadau cyflenwi** **7**

**Cysoni'r dull o gyflenwi AU mewn AB gydag anghenion yr economi** **9**

**Argymhellion** **10**

**Casgliad** **14**

**Atodiad A: Deall AU mewn AB yng Nghymru** **15**

**Atodiad B: Nifer y cofrestriadau a freiniwyd i mewn o SAUau ac a addysgwyd mewn sefydliadau AB yn 2012/2013** **18**

## Crynodeb gweithredol

Mae Addysg Uwch (AU) a sgiliau lefel uwch yn hanfodol er mwyn i Gymru gystadlu yn rhyngwladol am swyddi yn y dyfodol. Yn ei *Pholisi ar addysg uwch* ac yn ei *Datganiad polisi ar sgiliau*, mae Llywodraeth Cymru yn pwysleisio anghenion cyfnewidiol yr economi, ochr yn ochr â'r galw cynyddol am weithwyr â sgiliau lefel uchel. Mae angen estyn a blaenoriaethu'r cyfleoedd dysgu sy'n caniatáu i unigolion ddatblygu sgiliau lefel uwch ym mhob maes, a thrwy wneud hynny gynyddu gwerth addysg a hyfforddiant galwedigaethol fel llwybr i mewn i addysg uwch. Dylai prifysgolion a cholegau fod yn cynorthwyo busnesau yng Nghymru i gwrdd â'r gofynion hyn. Dylid cymryd agwedd fwy holistig a rhanbarthol tuag at addysg ôl-16 yng Nghymru, ac ategu hynny drwy gryfhau'r cynllunio rhanbarthol. Rhaid cryfhau'r cydweithio rhwng darparwyr addysg uwch ac addysg bellach (AB), er mwyn gwneud dilyniant rhwng y ddau sector, a hyd yn oed astudio cydamserol, yn realiti.

Mae'r adolygiad hwn yn ystyried y rhan a chwaraeir gan sefydliadau addysg bellach (SABau) wrth gyflenwi AU ganolradd ar lefelau 4 a 5 (sef cyrsiau islaw lefel gradd gyntaf) a chyfraniad hynny i addysg uwch sydd â ffocws galwedigaethol ac a ysgogir gan gyflogwyr. Prifysgolion sy'n cyflenwi'r rhan fwyaf o AU, a chydnabyddir eu cyfraniad yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae gan lawer o'r SABau y gallu i gynyddu mynediad i AU drwy gyflenwi cyrsiau canolradd yn hyblyg a lleol, ac mae potensial i ehangu'r math hwnnw o gyflenwi.

Yn yr adolygiad hwn, honnir mai trwy gydweithio rhwng y sectorau AB ac AU y ceir y budd economaidd gorau o'r system a'r strwythur ar gyfer addysg uwch a gyflenwir gan y SABau. Mae'r ddau sector yn cydnabod gwendid strategol y system bresennol, a bod cyfle i gryfhau'r modd y cynllunnir y ddarpariaeth a sicrhau dull mwy cydlynol a chynaliadwy o gyflenwi.

Gall cydweithio traws-sector ar sail ranbarthol ddarparu buddion sylweddol, gan gynnwys ehangu'r ystod o raglenni a gynigir, gwella'r llwybrau dilyniant a'r arbedion maint sy'n gysylltiedig â hynny. Mae cydweithio o'r fath hefyd yn caniatáu dull mwy cydgysylltiedig o gydweithio â diwydiant.

Dylai strwythur y cyflenwi, cyn belled ag y bo modd, gynorthwyo partneriaethau cynhyrchiol rhwng AU ac AB. Mae darpariaeth ryddfreinio wedi bod ar gael yn draddodiadol i sicrhau hyn. Er mwyn datblygu darpariaeth o safon uchel a llwybrau dysgu di-dor, mae angen dwysáu'r rhyngweithio rhwng y ddau sector yn hytrach na'i wanhau.

Mae'r rhan a chwaraeir gan drefniadau breinio yn hollbwysig o ran sicrhau ansawdd y cynnig AU. Ar hyn o bryd, nid yw mwyafrif y SABau yng Nghymru mewn sefyllfa i ddarparu cynnig AU eang heb gael cymorth gan SAU lleol i fodloni'r gofynion sicrwydd ansawdd. Mewn rhai SABau sydd â darpariaeth AU gymharol fach, hwyrach na fydd y niferoedd yn ddigon i sicrhau profiad AU ac i

ddarparu adnoddau digonol i'r cynnig AU; er enghraifft, datblygiad proffesiynol parhaus y staff ac adnoddau dysgu, yn ogystal â'r gallu i ymdopi â gofynion ystadegol a gofynion eraill a osodir ar ddarparwyr AU.

Y presennol yw'r amser i gydgrynhoi'r ddarpariaeth, cryfhau'r cydweithio a sefydlu cyd-bartneriaethau â diwydiant. Mae astudio rhan-amser yn parhau'n bwysig i Lywodraeth Cymru, ac mae'r adolygiad hwn yn cydnabod bod potensial i ehangu maint yr AU mewn AB ar gyfer darparu cyrsiau rhan-amser. Mae modd i'r argymhellion a roddir gerbron gan yr adolygiad hwn wella cydlyniad rhanbarthol, dilyniant dysgwyr a sefydlogrwydd gwaith addysg uwch ac addysg bellach.

**Yr argymhellion**

R1 Dylid ehangu'r cyflenwad rhan-amser o AU mewn AB yn y sectorau economaidd critigol.

R2 Dylai Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) a CholegauCymru gyfarfod gyda Llywodraeth Cymru i gytuno ar sut y gellir datblygu ac ehangu AU mewn AB er mwyn bodloni anghenion cyfnewidiol yr economi.

R3 Dylai CCAUC a CholegauCymru weithio gyda Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i sicrhau y bydd y modd y cyflenwir AU mewn AB yn cael ei gynllunio'n strategol gan SAUau a SABau, er mwyn ehangu'r ddarpariaeth.

R4 Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gall trefniadau cyllido a sicrwydd ansawdd CCAUC gynorthwyo datblygiad y ddarpariaeth o AU mewn AB.

R5 Dylai CCAUC ystyried cryfhau'r canllawiau ar drefniadau breinio rhwng colegau a phrifysgolion er mwyn darparu sefydlogrwydd a chynorthwyo'r sectorau AU ac AB i gynllunio'r strategol.

# Cefndir

Yn ystod y 30 mlynedd diwethaf mae newid dramatig wedi digwydd, yn ffurf yr AU a gyflenwir. Mae sefydlu'r prifysgolion ôl-'92, a diflaniad yr hen raglenni gradd 'rhyngosod' a oedd yn seiliedig ar gyflogwyr, wedi arwain at ganolbwyntio fwyfwy ar gyrsiau gradd i fyfyrwyr israddedig. Mae'r amgylchedd sgiliau hefyd wedi esblygu. Erbyn 2020 disgwylir y bydd y sylfaen sgiliau yng Nghymru wedi ei hailstrwythuro, a sgiliau lefel uwch yn ofynnol ar gyfer mwy a mwy o swyddi yn y dyfodol.

Tan 1966, roedd mwy o fyfyrwyr yn astudio cyrsiau lefel AU mewn SABau, nag o fyfyrwyr yn mynychu prifysgolion ledled y DU. Newidiodd y sefyllfa pan ail-ddynodwyd nifer o'r SABau yn sefydliadau 'polytechnig' o dan Bapur Gwyn ar ddysg Uwch 1966. Yn gynnar yn y 1990 ail-ddynodwyd y sefydliadau polytechnig hynny eu hunain yn brifysgolion, er mwyn sefydlu'r ddarpariaeth AU yn gadarn o fewn y sector AU. Er gwaethaf y newidiadau hynny, mae AU wedi parhau'n rhan bwysig o'r hyn a gynigir gan SAB, yn enwedig wrth gyflenwi Tystysgrifau Cenedlaethol Uwch (HNCs), Diplomâu Cenedlaethol Uwch (HNDs) a Graddau Sylfaen.

Gyferbyn â'r cefndir hwn, mae'r ddarpariaeth AU mewn AB yng Nghymru wedi tyfu'n gyson, er nad yw'n tueddu i fod yn rhan o fusnes craidd y SABau na'r SAUau. Mae uno colegau dros y blynyddoedd diwethaf wedi lleihau nifer y SABau ond hefyd wedi eu cryfhau, a'u rhoi mewn gwell sefyllfa i weithio'n strategol ar draws rhanbarthau neu ar y cyd â'r SAUau. Mae'r rhan helaethaf o'r ddarpariaeth yn ategu'r ddarpariaeth mewn SAUau, yn hytrach na chystadlu â hi. Er mai cymedrol yw maint y sector, mae ei natur yn amrywiol. Mae'r rhan fwyaf o'r SABau yn cynnig rhywfaint o addysg uwch, fel arfer mewn pynciau galwedigaethol ar lefelau islaw Gradd Baglor. Mae hyn yn cynnwys cyrsiau HND ac HNC, cyrsiau proffesiynol lefel uwch a Graddau Sylfaen. Yn ogystal, mae'r ffaith bod Prentisiaethau Uwch yn nodwedd gynyddol ac allweddol o'r cynnig AU mewn AB yn adlewyrchu ymdrech Llywodraeth Cymru i ychwanegu at y llwybrau i mewn i addysg sgiliau uwch, ac ymateb yn benodol i'r prinder technegwyr medrus ym maes gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM).

Gall AU mewn AB ddarparu cyfleoedd dilyniant i fyfyrwyr o raglenni lefel 3, ychwanegu at y sgiliau AU a gynigir yn lleol a rhanbarthol, a bodloni anghenion sgiliau mewn sectorau penodol. Mae'r myfyrwyr eu hunain yn tueddu i fod yn hŷn, i astudio rhan-amser ac i fyw mewn ardaloedd lle mae'r cyfraddau cyfranogi mewn AU yn is na'r cyfartaledd.

Yn yr adolygiad hwn, ystyrir rôl y SABau yn cyflenwi addysg uwch ganolradd ar lefelau 4 a 5 (sef cyrsiau islaw lefel gradd gyntaf) a'u cyfraniad i AU sydd â ffocws galwedigaethol, a ysgogir gan gyflogwyr. Yn benodol, edrychir ar y manteision, ar gysoni'r dull o gyflenwi ag anghenion cyfnewidiol yr economi ac ar y gwahanol ddulliau cyllido sy'n ysgogi'r cyflenwi.

# Manteision cyflwyno darpariaeth AU mewn SABau

### Pontio’r bylchau sgiliau canolradd a thechnegol

Mae darpariaeth AU ar lefelau 4 a 5 yn chware rhan hanfodol mewn pontio’r bylchau sgiliau a chyfrannu ar dwf economaidd. Mae’r AU mewn SABau yn canolbwyntio ar ddarparu sgiliau y gellir eu cymhwyso’n uniongyrchol yn y gweithle. Tra bo prinder sgiliau technegol a sgiliau cysylltiedig â gwaith yn bryder cyson i gyflogwyr ledled y DU[1], mae modd i gyflogwyr bach a mawr ymgysylltu â SABau ynglŷn â’u gofynion sgiliau, arfaethedig a phresennol, a datblygu rhaglenni a fydd yn cwrdd â’u hanghenion. Gall Graddau Sylfaen, yn enwedig, fod o fudd sylweddol i fusnesau; maent wedi eu cynllunio i fodloni anghenion sgiliau penodol a gellir eu cyflenwi yn hyblyg; rhan-amser yw’r rhan helaethaf o’r ddarpariaeth, a gyflenwir mewn mannau ‘lleol’ hwylus; a hynny’n ysbeidiol, gyda nifer o wahanol adegau cychwyn yn ystod y flwyddyn.

### Ymgysylltiad cyflogwyr a mynediad lleol

Cydnabyddir yn gyffredinol, wrth ddarparu hyfforddiant sgiliau uwch, fod ymgysylltu â chyflogwyr yn allweddol ar gyfer gwella perfformiad economaidd. Un o gryfderau’r SABau yw eu hanes o gynnal perthynas dda â chyflogwyr lleol, datblygu rhaglenni sy’n targedu’r bylchau sgiliau lefel uwch a chynnig rhaglenni astudio hyblyg. Mae llawer o gyflogwyr yn adnabod y brand galwedigaethol fel rhywbeth sy’n eiddo i’r SABau ar y lefel ganolradd.

Mae’r ddarpariaeth AU mewn AB yn ddigon hyblyg hefyd i’w ffitio o amgylch bywydau’r bobl. Gall y SABau gysylltu â chyflogwyr lleol a darparu hyfforddiant weithiau sy’n bodloni gofynion tra phenodol – yr union ofynion sy’n hanfodol er mwyn i’r busnesau dan sylw dyfu. Gallant gynnig AU mewn ardaloedd lle mae’r brifysgol agosaf allan o gyrraedd y dysgwyr. Mae pwysigrwydd hyn wedi ei adlewyrchu mewn ymchwil gan y Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth, sy’n dangos bod yn well gan bobl ifanc AU a gyflenwir yn agos i’w cartrefi[2].

### Ehangu cyfranogi a symudedd cymdeithasol

Enillir manteision cymdeithasol sylweddol yn ogystal, yn enwedig drwy ehangu’r mynediad i AU a thrwy hynny hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol. Yn ôl ymchwil a wnaed ar ran y Panel ar Fynediad Teg i’r Proffesiynau, mae pobl ifanc o’r grwpiau economaidd-gymdeithasol isaf fwy na dwywaith mor debygol o ymgymryd â chymwysterau galwedigaethol, o gymharu â phobl ifanc sydd â’u rhieni eisoes mewn galwedigaethau proffesiynol[3]. Mae ymgysylltu â chyflogwyr a datblygu eu gweithlu drwy’r ddarpariaeth lefel 4 a 5, gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer dilyniant mewn rolau technegol a phroffesiynol o fewn fframwaith strwythuredig, yn hyrwyddo symudedd cymdeithasol. Mae cryfder y cydweithio

[1] The UK Employment and Skills Almanac, UKCES (2010)
[2] *University is Not Just for Young People*, Y Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth, t17 (2008)
[3] Panel ar Fynediad Teg i’r Proffesiynau. (Gorff. 2009), *Unleashing Aspiration*. Swyddfa’r Cabinet


rhwng rhai sefydliadau AB ac AU eisoes yn cynyddu i'r eithaf y budd a geir o'r manteision hyn. Er enghraifft, bu'r fenter UHOVI[4], a ysgogwyd gan AU, yn datblygu sgiliau lefel uwch, yn rhoi sylw i dargedau Llywodraeth Cymru ar gyfer ennill cymwysterau Lefel 4+, a thrwy hynny adfywio rhanbarth Blaenau'r Cymoedd.

Yng nghyd-destun symudedd cymdeithasol ac ehangu cyfranogi, dylid ystyried hefyd gost cymharol y ddarpariaeth AB ar lefel 4 a 5. Ar hyn o byd, mae SABau yn cynnig darpariaeth AU am bris mwy cystadleuol o gymharu â phrifysgolion. Mae eu sylfaen o gostau yn is, yn bennaf oherwydd bod eu darlithwyr AU ar gontractau cyflogaeth sy'n adlewyrchu arferion gwaith y sector AB, tra bo costau staffio mewn SAU yn tueddu i fod yn uwch. Er hynny, rhaid cydnabod bod profiad y myfyriwr o AU mewn AB yn dra gwahanol i AU mewn AU. Er enghraifft nid yw dylanwad llawn yr AU a oleuir gan ymchwil ar gael i ddysgwyr bob amser, gan fod SABau yn canolbwyntio'n amlach ar addysgu yn hytrach nag ymchwil.

[4] http://www.uhovi.ac.uk/

# Trefniadau cyflenwi

Rhoddir darlun manwl o'r dull cyfredol o gyflenwi AU ac AB yn Atodiad A, *Deall AU mewn AB yng Nghymru.* Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am y patrymau cyflenwi, y mathau o ddarpariaeth a chyfranogi drwy ryddfraint a thrwy ddarpariaeth a gyllidir yn uniongyrchol. Yn yr adran hon, rhoddir amlinelliad o'r modd y mae'r mecanwaith cyflenwi ar gyfer AU rhagnodedig[5] yn gweithredu, hynny yw, breinio a darpariaeth a gyllidir yn uniongyrchol. Y trefniadau hyn yw'r fframwaith y mae'r cydweithio dechreuol rhwng y sectorau AU ac AB yn digwydd ynddo




***Ffigur 1*** Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) 2012/13

## Trefniadau breinio

Mae'r mwyafrif o'r SABau yng Nghymru yn cael eu cyllid ar gyfer addysg uwch drwy gyfrwng trefniadau gydag un neu nifer o bartneriaid SAU. Y SAUau sydd â rheolaeth ar nifer y myfyrwyr a ryddfreinir i'r SAB. Mae'r SAU yn cadw'r cyfrifoldeb am niferoedd y myfyrwyr, y cwricwlwm, ansawdd y ddarpariaeth a phrofiad yr myfyrwyr. Mae'r breiniau hyn yn aml wedi caniatáu i'r SAUau yng Nghymru gyrraedd yr ardaloedd a elwir yn 'smotiau oer' lle nad oes presenoldeb addysg uwch.

Negodir y trefniadau breinio fesul un rhwng sefydliadau AU ac AB. O ganlyniad, bydd y lefelau a'r mathau o wasanaethau yn amrywio, ond bydd y brifysgol fel arfer yn dal gafael ar gyfran o'r cyllid ar gyfer y costau gweinyddu, datblygu staff,

[5] Mae AU rhagnodedig mewn darpariaeth AB yn cynnwys Tystysgrifau a Diplomâu Cenedlaethol Uwch, Graddau Sylfaen, cyrsiau hyfforddiant pellach i athrawon, graddau cyntaf, graddau meistr a diplomâu a thystysgrifau ôl-raddedig.

cwricwlwm a sicrwydd ansawdd. Mae'n bosibl y ceir buddion yn nhermau mynediad myfyrwyr i gyfleusterau AU, megis adnoddau ar-lein, a fydd yn lleihau'r angen i deithio. Mae lefel y ffioedd a godir gan SAUau o dan drefniadau breinio yn fater a all godi cynnen yn y sector AB, yn enwedig pan fo ffioedd yn amrywio rhwng cyrsiau a phrifysgolion.

O ran cyfnod parhad y trefniadau breinio, disgwyliadau CCAUC yw y dylai'r cytundebau fod am gyfnod o bedair neu bum mlynedd o leiaf, gyda disgwyliad y gallant barhau am gyfnod hwy, pan fo'r ddau barti'n dymuno hynny. Byddai graddfa amser o'r fath yn caniatáu i'r SABau deimlo'n weddol hyderus ynglŷn â datblygu eu gallu i gyflenwi'r cynnig AU[6].

Ar hyn o bryd mae'r safonau academaidd a sicrwydd ansawdd yn cael eu cynnal gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch, o dan God Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch[7]. Mae prifysgolion yn cadw'r cyfrifoldeb am ansawdd y ddarpariaeth a'r addysgu o dan y trefniadau breinio. Mae'r costau, a negodir ac a adolygir gan y ddau barti, yn cydnabod y gwahanol lefelau o angen a'r gwasanaethau a ddarperir.

Yn gyffredinol, mae prifysgolion a cholegau yn wynebu heriau penodol mewn cysylltiad â'r trefniadau breinio presennol. Disgwylir i'r SABau ymateb i brifysgolion ynglŷn â chynllunio, cyllido a chasglu data, a hefyd i Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru ynglŷn â'u darpariaeth AB. Yn ogystal, mae'r SABau yn atebol i ddwy wahanol system sicrwydd ansawdd ac arolygu.

**Trefniadau cyllido uniongyrchol**

Yn gyfredol, nifer fach o SABau sydd yn derbyn cyllid yn uniongyrchol oddi wrth CCAUC. Mae'r SABau hyn yn gyfrifol am reoli'r modd y cyflenwir y rhaglen, niferoedd y myfyrwyr ac ansawdd y ddarpariaeth. Dilysir y cwricwlwm gan gorff dyfarnu neu gan SAU (dyfernir cymwysterau HNC/D o dan drwydded gan SAU lleol fel arfer). Cyfrifoldeb yr SAU neu'r corff dyfarnu yw safon y dyfarniad.

Yng Nghymru ar hyn o bryd, pedwar coleg sy'n cael cyllid yn uniongyrchol oddi wrth CCAUC (digwydd hynny ar sail hanesyddol i raddau helaeth): Grŵp Llandrillo Menai; Coleg Gŵyr Abertawe; Coleg Pen-y-bont ar Ogwr; a'r Grŵp NPTC.

Nid oes pŵer gan unrhyw SAB yng Nghymru i ddyfarnu ei gymwysterau addysg uwch ei hunan. Caiff SABau ymgeisio am bwerau i ddyfarnu eu Graddau Sylfaen eu hunain, ond oherwydd y gofynion ansawdd a'r gost sy'n gysylltiedig, ychydig ohonynt sydd mewn sefyllfa i wneud hynny. Hyd yma, nid oes yr un wedi cyflwyno cais

---

[6] *Guidance on partnership arrangements between Higher and Further Education Institutions,* Ebrill 2006 (Cylchlythyr W06/11HE): http://www.hefcw.ac.uk/publications/circulars/circulars_2006.aspx

[7] O dan y Bil Addysg Uwch (Cymru), bydd y trefniadau asesu ansawdd yn cael eu diwygio

# Cysoni'r dull o gyflenwi AU mewn AB gydag anghenion yr economi

## Trosolwg

Mae Llywodraeth Cymru, yn ei *Pholisi ar addysg uwch*[8] ac yn ei *Datganiad polisi ar sgiliau*[9], yn pwysleisio anghenion cyfnewidiol yr economi, ochr yn ochr â'r galw cynyddol am weithwyr â sgiliau lefel uchel. Mae angen i brifysgolion a cholegau ymateb i'r newidiadau hyn a chynorthwyo busnesau yng Nghymru i fodloni'r gofynion. Er mwyn cynnal yr economi yn y dyfodol bydd angen agwedd fwy holistig a rhanbarthol tuag at addysg ôl-16 yng Nghymru, ynghyd â chynllunio rhanbarthol mwy grymus. Rhaid cryfhau'r cydweithio rhwng darparwyr addysg uwch ac addysg bellach (AB), er mwyn gwneud dilyniant, a hyd yn oed astudio cydamserol yn y ddau sector, yn realiti

Mae angen cynnig y cyfleoedd gorau posibl i unigolion ymgymryd ag addysg uwch ledled Cymru, ac ategu hynny gan lwybrau dysgu di-dor, a grëir drwy'r rhyngweithio rhwng y sectorau AU ac AB. Pan fo AU mewn AB yn llwyddo, mae'r partneriaethau rhwng prifysgol a choleg yn seiliedig ar ddull cydlynol o gyflenwi, partneriaid sydd â chenhadaeth gyffredin, llwybrau dilyniant eglur ac ymgysylltiad diamwys y cyflogwyr.

Dylid dwysáu'r cydweithio strategol rhwng y sectorau AU ac AB yng Nghymru. Dylid datblygu a chyflenwi darpariaeth sy'n fwy cydnaws â'r anghenion economaidd, presennol ac yn y dyfodol, ac sy'n darparu llwybrau eglur ymlaen o'r ddarpariaeth lefel 3 academaidd a galwedigaethol. Gwneir pob un o'r argymhellion sy'n dilyn gyda'r amcanion hyn mewn golwg.

[8] Llywodraeth Cymru, Datganiad polisi ar addysg uwch (Mehefin 2013) http://cymru.gov.uk/topics/educationandskills/highereducation/policy-statement/?lang=cy
[9] Llywodraeth Cymru, Datganiad polisi ar sgiliau (Gorffennaf 2014) http://cymru.gov.uk/topics/educationandskills/skillsandtraining/policy-statement-on-skills/?lang=cy

## Argymhellion

*Ehangu'r ddarpariaeth o AU ran-amser mewn AB*

Yn ei adroddiad ar AU ran-amser, a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Polisi Addysg Uwch ym Mawrth 2013, awgrymodd yr Athro David Maguire[10] fod y galw cyffredinol am addysg uwch ran-amser wedi lleihau, er bod yr adroddiad yn canfod bod cyfran y myfyrwyr rhan-amser yng Nghymru a Lloegr ddwywaith cymaint â'r gyfran yn y cymharydd agosaf o blith yr 20 o wledydd yr UE yn yr arolwg.

Daeth yr adroddiad i'r casgliad fod polisïau yn Lloegr yn cael effaith ddifrifol a negyddol ar y galw am AU ran-amser. Awgrymodd y dylid mabwysiadu dull unedig o ymdrin ag addysg amser llawn a rhan-amser, ac y dylid llunio unrhyw bolisïau yn y dyfodol gydag amgylchiadau a gofynion y myfyrwyr mewn golwg.

Ers cyhoeddi'r adroddiad, mae'r amcangyfrifon diweddaraf yn awgrymu bod cofrestriadau rhan-amser yng Nghymru wedi parhau i ostwng, ond nid i'r graddau a ddigwyddodd mewn gwledydd eraill. Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu cyllid i CCAUC i barhau'r cymhorthdal ar gyfer costau cyrsiau rhan-amser, gan obeithio y bydd CCAUC yn parhau i gyllido darpariaeth ran-amser ar oddeutu'r lefelau presennol. Gobeithir hefyd y bydd SAUau yn ymddwyn yn cymedrol wrth bennu ffioedd dysgu rhan-amser

Er mwyn sicrhau y bydd gan fyfyrwyr israddedig rhan-amser ddigon o arian i dalu'r ffi dysgu yn llawn, bydd modd i fyfyrwyr sydd â'u domisil yng Nghymru ac sy'n astudio gyda dwysedd o fwy na 25% o gwrs amser llawn, o 2014/15 ymlaen, fanteisio ar fenthyciad ar gyfer y ffi dysgu gan Gyllid Myfyrwyr Cymru, heb unrhyw brawf modd.

Drwy barhau i gadw'r ffioedd am gyrsiau rhan-amser yn isel, a darparu benthyciad heb brawf modd i gynorthwyo gyda chostau astudio israddedig, mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio cynnal neu hyd yn oed gynyddu nifer y myfyrwyr sy'n dewis astudio yn rhan-amser yng Nghymru. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw fwriad i osod cap ar nifer y myfyrwyr rhan-amser y caiff sefydliadau eu recriwtio: mae'r ddarpariaeth o fenthyciadau a'r rhyddid i recriwtio myfyrwyr heb gyfyngiad yn gyfle, felly, i ehangu'r ddarpariaeth o AU mewn AB.

Ym mis Tachwedd 2013, cyhoeddodd Huw Lewis AM, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, yr *Adolygiad o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru*[11], a gadeirir gan yr Athro Syr Ian Diamond. Disgwylir adroddiad cyntaf yr adolygiad yn ystod yr hydref 2015 a'r adroddiad terfynol a fydd yn cynnwys argymhellion erbyn 2016. Mae un o flaenoriaethau'r adolygiad yn cynnwys

[10] Y Sefydliad Polisi Addysg Uwch, *Flexible Learning: Wrapping Higher Education Around the Needs Of Part-Time Students* (Mawrth 2013)

[11] http://wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2014/hefinance/?lang=en

cryfhau'r ddarpariaeth ran-amser ac ôl-raddedig yng Nghymru. Er gwaethaf yr holl heriau sy'n eu hwynebu anogir y SAUau a'r SABau i ddatblygu modelau cynaliadwy ar gyfer ehangu cyrsiau AU rhan-amser mewn cydweithrediad â chyflogwyr.

R1 Dylid ehangu'r cyflenwad rhan-amser o AU mewn AB yn y sectorau economaidd critigol.

*Cryfhau cynllunio a chydweithio rhanbarthol*

Rhaid cael cydweithio rhanbarthol cydlynol er mwyn darparu gwell pwyntiau mynediad i AU ac eglurach llwybrau dilyniant i AU o'r ysgol, o'r gymuned, o'r gweithle ac o AB. Mae'r *Datganiad polisi ar addysg uwch*, tra'n cydnabod y gwahaniaethau cenhadaeth rhwng sefydliadau, yn datgan y dylai SAUau gydweithio'n i gynllunio cyflenwi ar sail ranbarthol neu gydweithredol pan fo'n briodol. Gallai cydweithio o'r fath gynnig buddion sylweddol, megis ehangu'r ystod o raglenni a gynigir, gwella llwybrau dilyniant, a darparu arbedion maint cysylltiedig. Yn ogystal, byddai'n caniatáu dull mwy cydgysylltiedig o weithio gyda diwydiant.

Mae'r *Datganiad polisi* yn datgan hefyd y dylid plannu dull cydgysylltiedig a chynaliadwy o gyflenwi AU mewn AB yn y cynlluniau strategol rhanbarthol ar gyfer AU. Mae'r adolygiad hwn yn argymell dull strategol o ddatblygu AU mewn AB yn rhanbarthol, ar sail cydweithio rhwng SABau a SAUau – mewn partneriaeth a fyddai'n seiliedig ar genhadaeth gyffredin.

Dylid cryfhau'r trefniadau cynllunio rhanbarthol drwy gyfrwng y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, er mwyn annog prifysgolion a cholegau i ehangu'r ddarpariaeth AU mewn AB ac i rannu adnoddau. Byddai'n fanteisiol pe bai'r Cynlluniau Cyflogaeth a Sgiliau Rhanbarthol yn amlinellu'r dull rhanbarthol o gyflenwi AU mewn AB. Mae angen i bartneriaid adeiladu ac ymelwa ar eu cryfderau a'u harbenigeddau drwy'r dull rhanbarthol o gynllunio, tra'n parchu egwyddorion eglur y llinellau terfyn rhwng y sectorau. Dylai'r cynlluniau cyflenwi adlewyrchu strwythur amrywiol y perthnasau SABau a SAUau yng Nghymru, lle mae llawer o'r SAUau yn rheoli mwy nag un trefniant breinio a roddwyd i SAB, a gall SAB yn hawdd fod yn rheoli ei ystod o SAUau.

Dylai'r cynlluniau a strategaethau rhanbarthol hefyd barhau i gefnogi datblygiad AU cyfrwng Cymraeg. Dylid gwneud hyn nid yn unig ar sail cyfiawnder cymdeithasol i'r rhai sy'n dymuno dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg; gall fod o fudd hefyd i'r economi, drwy ychwanegu at gyfleoedd i ddatblygu'r gweithlu, a chyfleoedd i fusnesau fanteisio ar botensial yr amgylchedd dwyieithog.

Dylai CCAUC a CholegauCymru barhau i ganolbwyntio ar ddatblygu gwell cydlyniad rhanbarthol yn y modd y darperir AU yng Nghymru. Yn benodol, dylai

CCAUC roi sylw i gydlyniad rhanbarthol wrth arfer ei swyddogaethau o ddyrannu cyllid i ddarparwyr addysg uwch. Yn ychwanegol, dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y mae trefniadau cyllido a sicrhau ansawdd CCAUC yn hyrwyddo datblygiad y ddarpariaeth AU mewn AB.

Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (PCYDDS) a fu'n arwain y gwaith o ddatblygu strwythur prifysgol sector-deuol, sef fframwaith i alluogi cydweithio â darparwyr addysg eraill o fewn y rhanbarth, er mwyn cynllunio'r cwricwlwm mewn ffordd integredig a chryfhau'r llwybrau dilyniant. Fel rhan o'r datblygiad hwnnw, cyfunwyd Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion yn rhan o'r Grŵp PCYDDS yn 2013/14. Dylai'r dull hwn o weithredu gael ei estyn a'i ddyfnhau ledled Cymru, nid yn unig drwy gyfrwng strwythurau ffurfiol ond hefyd ar ffurf cydweithio rhanbarthol ystyrlon. Mae angen cydweithio cynaliadwy sy'n tarddu o gyd-baratoi cyrsiau, trefn gydlynol o ymgysylltu â chyflogwyr a chynllunio ar y cyd.

R2 Dylai Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) a CholegauCymru gyfarfod gyda Llywodraeth Cymru i gytuno ar sut y gellir datblygu ac ehangu AU mewn AB er mwyn bodloni anghenion cyfnewidiol yr economi.

R3 Dylai CCAUC a CholegauCymru weithio gyda Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i sicrhau y bydd y modd y cyflenwir AU mewn AB yn cael ei gynllunio'n strategol gan SAUau a SABau, er mwyn ehangu'r ddarpariaeth.

R4 Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gall trefniadau cyllido a sicrwydd ansawdd CCAUC gynorthwyo datblygiad y ddarpariaeth o AU mewn AB.

*Cryfhau trefniadau breinio*

Ar hyn o bryd yng Nghymru, gweithredir dau fath o drefniant ar gyfer cyflenwi AU mewn AB, sef breinio a chyllido uniongyrchol. Y trefniant mwyaf cyffredin o lawer yw breinio, sy'n adlewyrchu canlyniad yr ymgynghoriad a gynhaliwyd gan CCAUC yn 2004 ar AU mewn AB[12]. Mae trefniadau breinio yn caniatáu i SABau sydd â darpariaeth gymharol fach o AU mewn AB fodloni gofynion sicrwydd ansawdd. Gall trefniadau breinio ddarparu cymorth mewn meysydd megis datblygiad proffesiynol parhaus y staff AB, darparu adnoddau dysgu, a'r gallu i ymdrin â data a gofynion eraill a osodid fel arfer ar ddarparwyr AU.

Yn ogystal, mae pedwar coleg a gyllidir yn uniongyrchol gan CCAUC oherwydd, i raddau helaeth, trefniadau hanesyddol yn y sectorau AU ac AB. Mewn tri o'r

[12] W04/60HE: *Higher Education in Further Education Colleges. Outcome of Consultation* (Hydref 2004)

colegau hyn, bach iawn yw niferoedd y myfyrwyr sy’n cael budd o’r cyllido uniongyrchol.

Mae’r trefniadau cyflenwi ar gyfer AU mewn AB, boed hynny drwy ryddfreinio neu gyllido uniongyrchol, wedi bod yn destun llawer o drafod yn y sector AB. Un safbwynt yw y gall trefniadau breinio fygu mentrusrwydd a gosod costau a gofynion diangen ar y sector AB[13]. Yn benodol, gall hyn lesteirio’r gallu i gynllunio’n strategol oherwydd natur fyrdymor rhai o’r trefniadau breinio sydd, a ystyrir gan rai yn rhwystr sy’n atal y sector rhag ymateb i anghenion cyflogwyr. Honnir y byddai cyllido uniongyrchol (naill ai drwy CCAUC neu Lywodraeth Cymru) yn rhoi mesur o annibyniaeth i’r SABau, a fyddai’n eu galluogi i gynnig rhaglenni am bris cystadleuol, a fyddai’n fwy deniadol i gyflogwyr a dysgwyr. Ar y llaw arall, mae risgiau’n gysylltiedig ag ehangu cyllido uniongyrchol/ dyrannu darpariaeth, megis y perygl o greu amgylchedd lle y gallai rhai SABau greu portffolios AU bach gydag adnoddau sy’n annigonol i sicrhau ansawdd.

Yng Nghymru, Grŵp Llandrillo Menai yw’r Coleg sy’n derbyn y symiau mwyaf o gyllid uniongyrchol gan CCAUC, ac mae’r Coleg wedi sefydlu partneriaethau cryf gyda Phrifysgol Bangor a Phrifysgol Glyndŵr er mwyn dilysu ei gyrsiau addysg uwch. Mae’n bosibl y byddai trosglwyddo i’r dull breinio yn ansefydlogi’r ddarpariaeth hon a’r trefniadau partneriaeth yn yr ardal.

Gyferbyn â’r cefndir hwn, cydnabyddir bod angen atgyfnerthu trefniant cyflenwi, boed ryddfraint neu gyllido uniongyrchol, gan gydweithio strategol rhwng y sectorau. Sicrwydd cyllid yw un o brif bryderon y SABau sy’n cyflenwi AU o dan drefniadau breinio. Yn ystod yr adolygiad hwn, clywyd SABau’n mynegi rhwystredigaeth ynghylch trefniadau bregus gyda’u partneriaid prifysgol. Nid oes modd i’r ymrwymiad i ddatblygu AU ffynnu pan fo’r SABau’n ceisio ymdopi â newidiadau annisgwyl yn niferoedd y myfyrwyr a ddyrennir iddynt. Mae cyfnod parhad y trefniadau breinio yn ei gwneud yn anodd i’r SABau gynllunio’n strategol gydag unrhyw hyder.

Mae canllawiau CCAUC ar y mater hwn yn datgan y dylai SAUau, fel arfer, osod cytundebau o fewn cyfod o bedair i bum mlynedd o leiaf, gyda disgwyliad y parheir y tu hwnt i’r cyfnod hwnnw os bydd y ddau barti’n dymuno hynny, fel y gall y SAB deimlo’n rhesymol hyderus ynghylch datblygu ei alluoedd ar gyfer cyflenwi’r ddarpariaeth AU a geisir. Disgwylir iddynt ddarparu sefydlogrwydd er mwyn cynllunio.

R5 Dylai CCAUC ystyried cryfhau’r canllawiau ar drefniadau breinio rhwng colegau a phrifysgolion er mwyn darparu sefydlogrwydd a chynorthwyo’r sectorau AU ac AB i gynllunio’r strategol.

[13] *Vocational Value: The role of further education colleges in higher education*, Policy Exchange (2011)

## Casgliad

Ar lawer cyfrif, mae prifysgolion a cholegau yn bartneriaid naturiol, sy’n arddel cenhadaeth a diwylliant tebyg i’w gilydd. Mae’r ddau sector yn deall manteision y ddarpariaeth o AU mewn AB, a’i phwysigrwydd i genadaethau’r naill a’r llall. Mae rhai partneriaethau AU mewn AB wedi bod yn gweithredu ers blynyddoedd lawer, gan ennyn lefelau uchel o ymddiried a chyd-ddealltwriaeth; ac mae’r gefnogaeth i’r dull cydweithredol o gyflenwi AU mewn AB yn gryf.

Dylid cryfhau’r cydweithio rhwng darparwyr AU ac AB, a dwysáu’r cyd-gynllunio strategol rhwng y ddau sector, yn enwedig ar gyfer datblygu sgiliau technegol uwch. Mae gan y SABau arbenigeddau hirsefydlog mewn meysydd galwedigaethol, a dylent adeiladu ar y cyfuniad hwnnw o arbenigeddau drwy gyd-gynllunio a datblygu rhaglenni technegol, ar y cyd â chyflogwyr a’r prifysgolion sy’n bartneriaid iddynt.

Er mwyn ymateb yn fwy hyblyg i anghenion unigolion, a gyflogir mewn ffyrmiau lleol, am sgiliau technegol lefel uwch, mae llawer o’r SABau o blaid cael rhagor o annibyniaeth. Byddai hynny’n caniatáu iddynt gynyddu’r ddarpariaeth ran-amser lefel 4 a lefel 5, a darparu ar gyfer marchnad y gellid ei disgrifio fel un nas diwallwyd hyd yma. Dywed rhai y byddai’n well ganddynt gael cyllid uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru neu ddyraniad o niferoedd myfyrwyr ar lefel 4 neu 5, yn hytrach na chyflenwi o dan drefniadau breinio gyda phrifysgolion neu dderbyn dyraniadau uniongyrchol gan CCAUC.

Mae’r awydd hwn i fod yn annibynnol yn seiliedig i raddau helaeth ar y rhagdybiaeth y dylai’r sector AB fod yn gyfrifol am ei dynged ei hunan, ac yn rhydd o drefniadau a ganfyddir fel rhai sy’n cael effaith negyddol ar gynllunio, ac ar sefydlogrwydd y cyflenwi, yn y pen draw. Byddid yn wynebu rhai heriau wrth geisio gweithredu dull o’r fath, gan ei bod yn hollbwysig osgoi cystadlu di-fudd rhwng darparwyr.

Er mwyn ychwanegu at nifer y llwybrau i mewn i addysg sgiliau uwch, gan gynnwys datblygu’r cynnig o brentisiaethau uwch, mae’n ofynnol bod SABau a phrifysgolion yn cydweithio’n agosach i gyflenwi rhaglenni sydd o fudd i’n heconomi. Mae hwn yn gyfnod ar gyfer cydgrynhoi’r ddarpariaeth, cryfhau’r cydweithredu ac adeiladau partneriaethau gyda diwydiant

# Atodiad A: Deall AU mewn AB yng Nghymru

Mae'r adolygiad yn canolbwyntio ar gyflenwi cymwysterau sgiliau uwch ar lefel 4 neu lefel 5, gan sefydliadau AB yng Nghymru. Mae'r cymwysterau hyn yn is na lefel y Radd Baglor safonol a ddyfernir gan brifysgolion yn y DU.

Mae ffigur 1 isod yn rhestru cymwysterau AU fesul lefel.

| Cymwysterau AU fesul lefel |
|---|
| Lefel 4 Tystysgrifau Cenedlaethol Uwch (HNC) a chymwysterau galwedigaethol cyfwerth ar lefel 4, e.e. diplomâu proffesiynol |
| Lefel 5 Graddau Sylfaen, Diplomâu Cenedlaethol Uwch (HND), Tystysgrifau o AU chymwysterau glwedigaethol ar Lefel 3 |
| Lefel 6 Graddau Baglor/Anrhydedd |
| Lefel 7 Gradd Meistr, Diploma Ôl-raddedig / Tystysgrif, Tystysgrif Ôl-raddedig mewn Addysg |

**Darpariaeth ragnodedig ac anrhagnodedig**

Mae deall y gwahaniaeth rhwng darpariaeth ragnodedig ac anrhagnodedig yn hanfodol er mwyn deall AU mewn AB. Mae 'addysg uwch ragnodedig'[14] a'r term diofyn 'AU anrhagnodedig' yn cwmpasu rhyngddynt yr hyn sydd o fewn cylch gwaith CCAUC neu Lywodraeth Cymru.

Mae'r ddarpariaeth AU mewn AB ragnodedig yn cynnwys cymwysterau HNC and ac HND, Graddau Sylfaen, cyrsiau hyfforddiant pellach ar gyfer athrawon, graddau cyntaf, graddau meistr a diplomâu a thystysgrifau ôl-raddedig. Cymwysterau BTEC yw'r cymwysterau Cenedlaethol Uwch, a ddarperir neu a drwyddedir gan Pearson, ond a ddyfernir fel arfer gan SAU o dan drwydded. Caiff pob addysg uwch ragnodedig arall ei dilysu a'i dyfarnu gan SAU.

Yr enw byr a roddir ar yr AU ragnodedig a ddarperir yn y sector AB yw 'AU mewn AB'. Mae'r SABau yn parhau'n atebol am eu seilwaith a'u gweithrediadau i Lywodraeth Cymru, ond yn atebol am eu defnydd o gyllid ac ansawdd y ddarpariaeth (drwy SAU fel y bo'n briodol) i CCAUC, drwy'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA).

[14] Diffinnir o dan y deddfau addysg a'r offerynnau statudol perthnasol: Deddf Diwygio Addysg 1988; Rheoliadau Addysg (Cyrsiau Rhagnodedig Addysg Uwch)1989; a Rheoliadau Addysg (Cyrsiau Rhagnodedig Addysg Uwch) (Cymru) 1993

Mae AU anrhagnodedig yn cynnwys y cymwysterau hynny nas cynhwysir fel rhai rhagnodedig yn y rheoliadau. Mae'r cymwysterau hyn yn parhau'n gyfrifoldeb i Lywodraeth Cymru. Nid yw cyrsiau o'r fath yn cael eu hachredu na'u cyflenwi gan brifysgolion; maent yn cynnwys cymwysterau a dyfarniadau proffesiynol, a gyflenwir yn bennaf ar sail ran-amser i bobl gyflogedig sy'n 25 oed neu'n hŷn.

Cyllidir y cyrsiau AU anrhagnodedig naill ai'n uniongyrchol i SABau drwy Lywodraeth Cymru, neu'n uniongyrchol gan gyflogwyr/unigolion.

Mae'r cymwysterau unigol yn cynnwys dyfarniadau proffesiynol lefel uwch mewn meysydd megis addysgu, rheolaeth, cyfrifyddiaeth, marchnata a phynciau arbenigol eraill. Mae'r canlynol yn enghreifftiau:


- Dyfarniad Lefel 5 y Sefydliad Rheolaeth Siartredig (CMI) mewn Rheolaeth ac Arweinyddiaeth
- Diploma Lefel 4 y Gymdeithas Technegwyr Cyfrifyddu (AAT) mewn Cyfrifeg
- Diploma Lefel 5 y City & Guilds mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Hyfforddiant Gwirwyr Mewnol

Mae'r cyrff dyfarnu yn cynnwys: Pearson; City & Guilds, Gymdeithas Technegwyr Cyfrifyddu (AAT), y Sefydliad Siartredig Marchnata (CIM), a'r Sefydliad Gweithredwyr Cyfreithiol (ILEX).

Mae ymchwil i AU mewn AB, a wnaed ar ran yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau (BIS) yn Lloegr, yn dynodi nad yw'n ymddangos od y SABau yn cydnabod y myfyrwyr hyn fel myfyrwyr AU, ond yn hytrach fel myfyrwyr rhan-amser sy'n dilyn cyrsiau proffesiynol, neu'n cymryd rhan mewn dysgu seiliedig ar waith, neu ddatblygiad proffesiynol parhaus[15].

[15] BIS: Papur Ymchwil Rhif 69, Understanding Higher Education in Further Education College (Mehefin 2012)

## Cyfranogiad




***Ffigur 2 Ffynhonnell***: Monitro Cofrestriadau Addysg Uwch: Arolwg Diwedd Blwyddyn (EYM) 2011/12 (cyllido uniongyrchol) and 2012/13 Cofnod Myfyrwyr HESA – poblogaeth cofrestredig safonol (breiniwyd i mewn).

## Dilyniant myfyrwyr

Mae AU mewn AB yn chwarae rhan bwysig yn y dilyniant ar gyfer dysgwyr. Amcangyfrifir bod 30-40% o'r holl ymrestriadau mewn SAUau yng Nghymru wedi tarddu o SABau yn Nghymru[16]. Mae'n ymddangos bod y sefyllfa yn Lloegr yn debyg, gydag oddeutu 37% o'r ymrestriadau yn dod o'r SABau yn Lloegr

[16] Dilyniant o AB i AU: Adroddiad i Lywodraeth Cymru (Mawrth 2012)

# Atodiad B: Nifer y cofrestriadau a freiniwyd i mewn o SAUau ac a addysgwyd mewn sefydliadau AB yn 2012/2013

**Niferoedd cofrestriadau a freiniwyd i mewn o SAUau ac a addysgwyd mewn sefydliadau AB yn 2012/2013**

| Sefydliad | Amser llawn | Rhan-amser | Cyfanswm a ryddfreiniwyd i mewn o SAUau |
|---|---|---|---|
| Coleg Pen-y-bont ar Ogwr | 325 | 655 | 980 |
| coleg Caerdydd a'r Fro | 45 | 410 | 455 |
| Coleg Ceredigion | * | 35 | 35 |
| Coleg Gwent | 180 | 345 | 525 |
| Grŵp Llandrillo Menai | 75 | 395 | 465 |
| Coleg Morgannwg | 85 | 255 | 340 |
| Coleg Powys | 40 | 60 | 95 |
| Coleg Sir Gâr | 150 | 410 | 560 |
| Coleg glannau Dyfrdwy | * | 145 | 145 |
| Coleg Gŵyr Abertawe | 30 | 170 | 200 |
| Coleg Castell-nedd Port Talbot | 200 | 130 | 330 |
| Coleg Sir Benfro | 90 | 255 | 345 |
| Coleg Iâl Wrecsam | * | 115 | 115 |
| Coleg Cymunedol YMCA Cymru | 25 | * | 25 |
| Coleg Ystrad Mynach | 20 | 225 | 245 |
| **Cyfanswm** | **1,265** | **3,605** | **4,865** |

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr HESA 2012/13 – poblogaeth gofrestredig – sail dysgwr

(a) Ni chynhwysir Coleg Merthyr Tudful (a gynhwysir o dan Brifysgol Morgannwg at ddibenion ystadegol).

(b) Disodlir niferoedd sy'n fwy na 0 ac yn llai na 5 gan *. Mae ffigurau eraill wedi eu talgrynnu i'r 5 agosaf, a gall fod mân wahaniaethau rhwng symiau'r eitemau ansoddol a'r cyfansymiau a dalgrynnwyd yn annibynnol.

| Sefydliad | Modd astudio | Lefel astudio | Cofrestriadau (Monitro Diwedd Blwyddyn) 2012/13 |
|---|---|---|---|
| Coleg Pen-y-bont ar Ogwr | Amser llawn | Israddedig | 20 |
| Coleg Sir Gâr | Amser llawn | Israddedig | 220 |
| | Rhan-amser | Israddedig | 125 |
| Grŵp Llandrillo Menai | Amser llawn | Israddedig | 405 |
| | Rhan-amser | Israddedig | 570 |
| Coleg Gŵyr Abertawe | Rhan-amser | Ôl-raddedig | 20 |
| | Rhan-amser | Israddedig | 70 |
| Coleg Castell-nedd Port Talbot | Amser llawn | Israddedig | 15 |
| | Rhan-amser | Israddedig | 30 |
| **Cyfanswm** | | | **1,475** |

Ffynhonnell: Arolwg Monitro Diwedd Blwyddyn CCAUC 2012/13
Sylwer: Mae'r data hyn yn cynnwys cofrestriadau y rhagdybiwyd eu cwblhau